**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Addysg

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 24 Mehefin 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | A M Day | S J Gallagher |
| B Hopkins | L James | S M Jones |
| M A Langstone | | L J Tyler-Lloyd |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| A Roberts | | |

**Hefyd yn bresennol**
Robert Smith — Aelod y Cabinet - Gwella Addysg, Dysgu a Sgiliau

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Lisa Collins | Swyddog Amddiffyn a Diogelu Plant |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): M Durke a/ac D W Helliwell

---

1 **Cadarnhau Cynullydd**

Ail-gadarnhaodd y Panel y Cyng. Lyndon Jones fel Cynullydd y Panel Craffu Addysg ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021/2022.

2 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

3 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim

4 **Cofnodion**

Cafodd y llythyrau a'r cofnodion eu hadolygu a'u derbyn gan y Panel.

## 5 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 6 Aflonyddu yn yr Ysgol - briffio ar lafar

Diolchodd y Panel i'r Aelod Cabinet, y Cynghorydd Robert Smith, y Cyfarwyddwr Addysg Helen Morgan Rees a Lisa Collins, y Swyddog Amddiffyn a Diogelu Plant am ddod i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cynghorydd Robert Smith wrth y Panel fod y camau priodol wedi'u cymryd a'r ymateb priodol wedi'i roi i'r hyn sydd wedi dod i'r amlwg. Cymerwyd camau mewn dwy ran. Yn gyntaf, yn ymwneud yn benodol â'r achosion hynny a grybwyllwyd ar y wefan, rydym wedi mynd i'r ysgolion y soniwyd amdanynt i ddarganfod yr hyn roeddent yn ymwybodol ohono, pa gamau a gymerwyd a beth yw'r polisïau. Fe'n sicrhawyd yr ymdriniwyd â'r holl ddigwyddiadau sydd wedi crybwyll ysgolion yn Abertawe. Yn ail, nid ydym am enwi'r ysgolion hynny ond rydym am fod yn glir na ddylid esgusodi'r ymddygiad hwn yn unrhyw un o'n hysgolion. Yn ehangach, byddwn yn defnyddio'n gofal bugeiliol mewn ysgolion a'r cwricwlwm newydd i gyfleu'r neges nad yw hyn yn ymddygiad derbyniol yn barhaus. Byddwn hefyd yn sicrhau os oes gan ddysgwyr broblemau y maent yn dymuno roi gwybod amdanynt, eu bod yn gwybod ble y gallant godi hyn, hynny yw ar gyfer unrhyw beth sy'n digwydd yn yr ysgol neu'r tu allan iddi.

Nid yw'r Panel ychwaith yn esgusodi'r ymddygiad hwn, lle bynnag y mae'n digwydd, ac mae'n cydnabod bod angen strategaeth glir ar waith. Hoffai'r Panel archwilio hyn ymhellach ond maent yn cytuno bod angen iddynt gymryd yr ymagwedd gywir ac mewn modd cytbwys. Felly, mae'r Panel yn cytuno i ohirio'r eitem hon hyd nes y gall Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau gasglu a chyflwyno rhagor o wybodaeth i'r Panel.

## 7 Adferiad COVID a materion allweddol eraill sy'n effeithio ar Addysg wrth symud ymlaen

Rhoddodd Helen Morgan Rees, y Cyfarwyddwr Addysg, yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel am sefyllfa COVID yn ein hysgolion a'r adferiad parhaus, gan gynnwys:

- Addysg mewn cyflwr o adferiad cynnar ond mae llawer o ddisgyblion yn dal i hunanynysu
- Mae wedi bod yn anodd i ysgolion gan ein bod wedi cael mesurau rheoli ar waith ers dros flwyddyn. Mae rheolau wedi'u llacio mewn cymdeithas yn ehangach ond nid o reidrwydd yn ein hysgolion, gyda chadw grwpiau blwyddyn a swigod.
- Mae Estyn wedi'n hysbysu bod arolygiadau ysgolion yn cael eu hatal ac y byddant yn ailddechrau gydag arolygiad peilot ar ôl Pasg 2022.
- Ffrwd waith addysg glir yng nghynllun adfer y cyngor gyda lles yn uchel ar yr agenda.
- Bydd staff ychwanegol ar waith ar gyfer dysgu carlam.
- Rhan o'r adferiad yn Abertawe fydd gwrando ar blant a phobl ifanc, cael eu barn.
- Talodd deyrnged i'n holl ysgolion a sut maent wedi ymdopi drwy'r cyfnod hwn.

8 **Cynllunio ar gyfer Craffu ar Addysg ar gyfer blwyddyn cyngor 2021/2022 - Rhaglen Waith ddrafft**

Trafododd a chytunodd y Panel ar y rhaglen waith ddrafft ar gyfer y flwyddyn ddinesig i ddod, gyda'r eitemau canlynol yn cael eu hychwanegu:

- Wrth gyfarfod â Chynghorwyr Gwella Ysgolion ar 30 Medi dylai hyn hefyd gynnwys: sut rydym yn cefnogi disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, parodrwydd mewn Addysg ar gyfer y Fargen Ddinesig, sut mae arfer da yn cael ei rannu.
- Y diweddaraf am gynnydd yn y maes Addysg mewn Lleoliad Heblaw'r Ysgol (EOTAS)
- Y diweddaraf am gynnydd Partneriaeth Sgiliau Abertawe
- Cyflwyno'r cwricwlwm newydd -  y diweddaraf am gynnydd (21 Hydref)

Daeth y cyfarfod i ben am 5.15 pm

**Cadeirydd**